# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 3

TREFNIADAETH YSGOLION

## PENNOD 2

CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

*Cymeradwyo cynigion a phenderfynu arnynt*

### 54 Eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw awdurdod lleol wedi—

(a) penderfynu cymeradwyo neu wrthod cynigion o dan adran 51(4), neu

(b) penderfynu o dan adran 53(1) i weithredu cynigion y gwnaed gwrthwynebiad iddynt yn unol ag adran 49 (ac nas tynnwyd yn ei ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu).

(2) Cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwrnod penderfynu'r awdurdod lleol o dan adran 51(4) neu 53(1), caiff y canlynol atgyfeirio'r cynigion i Weinidogion Cymru—

(a) awdurdod lleol arall y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno;

(b) awdurdod lleol yn Lloegr y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno;

(c) y corff crefyddol priodol ar gyfer—

(i) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi os yw'n ysgol sydd â chymeriad crefyddol, neu y bwriedir iddi fod yn ysgol o'r fath, neu

(ii) unrhyw ysgol arall sydd â chymeriad crefyddol ac y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arni;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 54 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(d) os yw'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol, corff llywodraethu'r ysgol;

(e) ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo at ddibenion yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;

(f) sefydliad o fewn y sector addysg bellach y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno.

(3) Cwestiwn i gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru yw a yw awdurdod, ysgol neu sefydliad yn debyg o gael ei effeithio gan y cynigion at ddiben is-adran (2).

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried cynigion a atgyfeiriwyd iddynt o dan yr adran hon o'r newydd ac mae is-adrannau (5) i (8) o adran 50 yn gymwys fel petai angen eu cymeradwyaeth o dan yr adran honno.

(5) Ni chaniateir i gynigion a wneir o dan adran 43 neu 44 i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 56) gael eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(6) Os yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried cynigion a atgyfeiriwyd o dan yr adran hon, nid yw'r cynigion hynny i'w trin at ddibenion adran 55 neu 61 fel rhai a gymeradwywyd o dan adran 51 neu fel cynigion y mae'r cynigydd wedi penderfynu eu gweithredu o dan adran 53.

(7) Os yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cynigion yn unol â'r adran hon, mae'r cynigion i'w trin at ddibenion adran 55 fel petaent wedi eu cymeradwyo o dan adran 50.

(8) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cynigion yn unol â'r adran hon, mae'r cynigion i'w trin at ddibenion paragraff 35(3)(e) o Atodlen 4 fel petaent wedi eu gwrthod o dan adran 50.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 54 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I2** A. 54 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(a)** (ynghyd ag ergl. 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 54 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- Pt. 3 Ch. 3A inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(7)
- s. 1(9A) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(2)(a)
- s. 38(2)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(a)
- s. 38(5)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(b)
- s. 39(1)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(4)
- Sch. 2 para. 19(2)(c)(i) word inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(12)(b)